Ardal Goedwig Coed y Mynydd
Gwydyr Uchaf
LLANRWST
Conwy. LL26 0PN

Ein Cyf: FM32/6/3

At: Chris Edwards, John Ratcliffe, Gwyn Jones, Wil Sandison, Dave Rees, Enid Mummery, Simon Hunt, Neil Johnstone, Jonathan Levell, Paul Whalley, Dave Cowley, David Hewett, Peter Charleston, Christian Branch, Hugh Knott

Copi: Mr Alun Morgan Owen – Swyddog Cefn Gwlad, Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Robert Lloyd Hughes – Cynghorydd dros Fodorgan

GWAHODDWYD - Hilary Davies (Clwb Cyfeiriannu Eryri)

**PANEL AMGYLCHEDD NIWBWRCH**
**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 26 Mehefin, 2003**
**yn Sefydliad Prichard Jones, Niwbwrch**

CADEIRIWYD Y CYFARFOD gan Jonathan Levell – Coedwigwr Ardal, Cynllunio

1. YMDDIHEURIADAU: Terry O'Keefe, Peter Charleston a Paul Whalley.

2. CAMAU GWEITHREDU HEB EU CWBLHAU – [o gyfarfodydd blaenorol]

a. Deunydd Archif – Defnyddiwyd llawer o ffotograffau'r Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer Prosiect Coedwig yn y Gymuned Wledig ond cael eu cadw yn yr archifau yn Llangefni a wneir o hyd yn ôl pob tebyg.

Awgrymwyd hefyd y dylai'r CDau ROM a wnaed o'r Prosiect fod ar gael er mwyn i bobl allu prynu copïau ohonynt. Cysylltu â'r Llyfrgell Genedlaethol i weld a ellir hepgor hawlfraint mewn rhyw ffordd.

Cam Gweithredu: MG

b. Toiledau Maes Parcio Traeth Niwbwrch – Bydd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn ymweld â'r toiledau newydd ar 7 Gorffennaf, i gyflwyno gwobr am y toiledau.

Cam Gweithredu: MG

c. Prosiect Lleoli Coed (Bio-ynni) – Roedd hwn yn gam gweithredu i Terry, ond yn anffodus gan ei fod wedi symud i Gaerdydd yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyswllt y Cynulliad, ni wnaed unrhyw gynnydd ar y mater hwn.

Cam Gweithredu: JL

ch. Tŵr Gwylio'r Goedwig - Mae'r tŵr, a ystyriwyd ei fod yn anniogel, wedi cael ei ddatgymalu bellach, er bod darnau ohono yn parhau i fod ar y safle.

Cyflawnwyd

d. Strategaeth Goetiroedd Ynys Môn – Roedd y strategaeth derfynol i fod ar gael erbyn diwedd mis Mawrth 2003. Mae'r crynodeb gweithredol wedi cael ei anfon at Garth Winston, y deiliad portffolio newydd. Y bwriad yw cyhoeddi'r strategaeth erbyn mis Medi 2003 o bosib.

Cam Gweithredu: SH

dd. Prosiect Coetiroedd yn y Gymuned Wledig - Gorffennodd y prosiect Mawrth / Ebrill 2003. Mae Jane Jones wedi cymryd yr awenau oddi wrth Mair Davies fel cydlynydd y prosiect. Mae Jane yn awyddus i fynd â'r prosiect yn ei flaen gan ei bod yn teimlo fod llawer i'w wneud eto. Nod y prosiect yw cynhyrchu CDau hanes clywedol ac i ddarparu copïau at ddefnydd y gymuned leol. Mae wyth neu ddeg CD arall eto i gyrraedd. Y syniad yw, y gall y cyhoedd ddod yma i'r neuadd a gwrando ar y CDau.

Cysylltwch â Kath McNaulty (Tîm Cymdeithasol) i weld a oes cyllid ar gael er mwyn galluogi i'r prosiect hwn barhau yn Niwbwrch ac i fynd ar drywydd y CDau sydd heb eu cael eto. Hefyd, a fydd hi'n bosibl cael caniatâd oddi wrth Lyfrgell Cenedlaethol Cymru, i'r cyhoedd gymryd copïau o'r CDau.

Cam Gweithredu: JL, MG

e. Rheolwyr Rhawd Cymunedol (Heddlu Gogledd Cymru) – Yn ansicr beth yw'r sefyllfa bresennol ynghylch Rheolwr Rhawd Cymunedol ar gyfer ardal Niwbwrch, oes un?

Cam Gweithredu: Gohiriwyd

3. CAMAU GWEITHREDU YN DEILLIO O'R CYFARFOD BLAENOROL (26 Mehefin, 2003)

i. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Brosiect Llys Rhosyr - Mae ymron i £60,000 o arian wedi'i dderbyn ar gyfer y prosiect hwn. Y bwriad rŵan yw defnyddio'r cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli yma yn y Neuadd. Bydd ystafell yn cael ei neilltuo i'r prosiect a bydd yn cynnwys rhywfaint o ddeunydd arddangos ychwanegol. Hefyd, mae dau aelod staff ar gael i agor yr arddangosfa o 10 o'r gloch y bore hyd 4 o'r gloch y prynhawn, gan gynnwys penwythnosau.

Rydym yn gobeithio gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr eleni o ganlyniad i'r taflenni a'r holl ddeunydd hyrwyddo. Defnyddir y cynnig i uwchraddio'r arddangosfa ac ychwanegwyd pecyn rhithwir a gostiodd £10,000 am ffilm dau funud.

Ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd y pwyslais ar hyfywedd tymor hir Llys Rhosyr. Mewn cyfarfod â Karl Atkinson (Dehongliadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru) rhyw ddeufis yn ôl, cytunwyd y gallai Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynorthwyo â chomisiynu astudiaeth dichonolrwydd er mwyn gweld beth yn union fyddai'n gweithio yn yr ardal hon. Mae'r Cyngor wedi datgan hefyd y ceir rhywfaint o gyllido ganddynt ar gyfer yr astudiaeth dichonolrwydd. Ar hyn o bryd, disgwylir cyllid o tua £25,000 ar gyfer yr astudiaeth dichonolrwydd. Dylai'r astudiaeth fynd i'r afael â materion fel nodi adeiladau addas. Gallai fod yn adeilad newydd neu adeilad sy'n bodoli eisoes, e.e. Sefydliad Prichard Jones. Hefyd rhaid nodi pa gyfleusterau y bydd eu hangen ac ati.

Cam Gweithredu: NJ

ii. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ail-lunio Coedwig Niwbwrch – Daeth y cynllun dylunio coedwig i Niwbwrch i ben dair blynedd yn ôl. Oherwydd hyn, nid oes unrhyw gwymp-glirio nac ailblannu'n digwydd ar hyn o bryd.

Oherwydd ei bod wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig, gallai ffordd mae'r goedwig yn cael ei rheoli ar hyn o bryd a'r ffordd y gallai ddatblygu yn y dyfodol newid yn llwyr. Sefydlwyd grŵp yn cynnwys Simon Hunt (Cyngor Sir Ynys Môn), John Ratcliffe (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Hilary Miller (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), John Ferguson (Comisiwn Coedwigaeth), Martin Gould (Comisiwn Coedwigaeth) a Jon Levell (Comisiwn Coedwigaeth) i geisio canfod ffordd

ymlaen. Unwaith y cytunwyd ar hyn, byddai'n darparu sail ar gyfer Cynllun Dylunio Niwbwrch yn y dyfodol.

Ymwelodd Pwyllgor Ymgynghorol Coedwigaeth Cymru â Niwbwrch ddydd Llun 23 Mehefin, grŵp cyflafareddu yw yn y bôn sy'n cyflafareddu ar bethau fel grantiau sy'n destun anghydfod ac ati. Fe'u gwahoddwyd i roi sylwadau defnyddiol ar yr argymhellion hyd yn hyn. Rydym yn aros am gofnodion o'u cyfarfod.

Hefyd, bydd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol os byddid yn datgoedwigo mwy na nifer penodol o hectarau o dir. Byddwn yn cynnal cyfarfod rhychwantu tua diwedd y mis hwn (Mehefin). Bydd Greg Vickers, Rheolwr Gweithrediadau Gogledd Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth yn trefnu ac yn gwahodd pobl a all gyfrannu at y broses a fydd yn y bôn yn cynnwys aelodau o'r panel hwn, rhywun o'r cyngor i ymdrin â'r agweddau economaidd, a hefyd rhywun o'r cyngor cymunedol.

Cam Gweithredu: JL/JR

iii. Prosiect Peilot Ail-gyflwyno Gwiwerod Coch yng Nghoedwig Niwbwrch (Diweddariad) - Yn gynharach eleni adeiladwyd pum caeadle 7 metr sgwâr wedi'i gorchuddio ar gyfer bridio. Mae cyfanswm o bump ohonynt, sydd wedi'u cuddio o'r golwg mewn ardal segur. Ar hyn o bryd mae pedwar pâr yno. Rydym wedi clywed bod un o'r benywod yn disgwyl ac rydym yn tybio bod un arall â rhai bach yn y bocs. Os gwir yw hyn, yna'r bwriad bydd rhyddhau'r gwiwerod ifainc efallai ym mis Rhagfyr eleni, 2003). Dyma'r amser cynharaf y gellid eu rhyddhau, ond efallai dylid bod yn ofalus a'u rhyddhau ar ddechrau'r flwyddyn ddilynol.

Daeth un o'r anifeiliaid o Cymbria a bridiwyd y gweddill mewn caethiwed. Gobeithir y gellid symud rhai anifeiliaid o Bentraeth, efallai tua diwedd y flwyddyn. Y sefyllfa ym Mhentraeth yw y tybir na ellir cadw mwy o wiwerod yno gan y cyrhaeddwyd uchafswm yr anifeiliaid y gellir eu cadw yno. Er bod rhai yn cael eu geni yno o hyd, mae'r siawns iddynt allu cytrefu'r coetiroedd cyfagos yn fain iawn.

Mae rhai astudiaethau DNA o boblogaeth gwiwerod Pentraeth wedi dangos eu bod yn wael o'r safbwynt genetig. Gallai hyn gyfiawnhau dod ag anifeiliaid i mewn o du allan yr ardal, er mwyn cynyddu a gwella'r amrywiaeth enetig.

Mae rheoli'r Gwiwerod Llwyd yn Niwbwrch yn mynd yn ei flaen yn dda iawn. Mae trapiau wedi'u gosod yn y goedwig ar bedwar achlysur, a phob tro mae llai o wiwerod wedi'u dal, mae'r nifer a gaiff eu dal hanner y rhif a ddaliwyd y tro blaenorol gyda phob sesiwn trapio. Y tro diwethaf 20 o wiwerod yn unig a ddaliwyd.

Peth gwybodaeth ddiddorol am y firws parapox sef, fel y gwyddoch, y firws a drosglwyddir o'r wiwer lwyd ac sy'n brif achos marwolaeth ymysg gwiwerod coch. Ers cychwyn y prosiect, mae profion wedi'u cynnal i weld a oes parapox yn bresennol mewn gwiwerod llwyd ar Ynys Môn. Dangosodd ffigurau cychwynnol fod parapox yn bresennol mewn rhwng 60% ac 100% o wiwerod llwyd ac ar y cychwyn yn Niwbwrch roedd y ffigur hyd at 90%. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng yn sylweddol iawn ac mae'r risg o'r clwyf hwn mewn gwiwerod yn Niwbwrch wedi gostwng i 10%.

Cam Gweithredu: HK

iv. Ymddiriedolaeth Fieldfair, Adroddiad Mynychu - Am tua blwyddyn bellach, gwnaethom sylweddoli bod Niwbwrch yn safle lle byddai pobl lai abl yn disgwyl cael mynediad, gan na fyddent yn disgwyl hyn mewn ardaloedd mwy mynyddig. Mae Niwbwrch ar y llaw arall, yn dir hawdd o ran slwtsh ac ati.

Nid ydym wedi edrych yn fanwl ar y safle'n ei gyfanrwydd i weld pa mor hygyrch yw felly comisiynwyd Ymddiriedolaeth Fieldfair i gynnal archwiliad o'r safle. Yr wythnos ddiwethaf, cawsom o'r diwedd, ddogfen 44 o dudalennau. Yn gyffredinol, eu hargymhellion yw gwella'r graddiant ar rai o'r llwybrau. Nid yw hyn yn waith mawr ar unrhyw ystyr. Mae angen gwella rhai o'r llwybrau sy'n bodoli eisoes h.y. nodwyd y llwybr glas yn arbennig fel un sydd angen ei wella er mwyn darparu gwell hygyrchedd. Nid yw'r llwybr Hendy, yn eu tyb nhw yn ymarferol o ran mynediad. O ran Llyn Parc Mawr, maen nhw wedi nodi nad yw'r mynediad i'r Cuddfan Helyg yn bodloni'r safon, ac felly mae'n debyg bydd angen gwneud rhagor o waith yno. Mae angen syniadau ar gyfer sut y gellir ad-drefnu llif y ceir ym maes parcio'r prif draeth, yn enwedig ag ystyried lleoliad y toiledau newydd. Rhaid cyfarfod ar y safle er mwyn ystyried yr hyn a nodir yn yr adroddiad, sut y gellir ei roi ar waith a beth y gallem ni ei wneud.

Mae'r ddogfen ar gael i unrhyw sydd am ei darllen. Nid oes unrhyw gopïau ychwanegol ar gael heddiw ond gellir anfon copi caled neu gopi electronig trwy gyfrwng neges e-bost at unrhyw un sydd am gopi o'r adroddiad. Gofynnwyd am gopi o'r adroddiad gan Gwyn, Enid, John a Simon.

Rhaid i mi bwysleisio mae archwiliad yw hwn ac nid oes rhaid i ni weithredu popeth a gynhwysir yn yr adroddiad, fe ddewiswn yr hyn sy'n briodol ynddo yn ein barn ni, a chawn drafod hyn yn y fforwm hwn ar ddyddiad diweddarach.

Cam Gweithredu: RW

v. Clwb Cyfeiriannu Eryri – Defnydd Arfaethedig o Goedwig Niwbwrch – Gwahoddwyd Hilary Davies, ar ran Clwb Cyfeiriannu Eryri, i sôn am gynigion y clwb ar gyfer cynnal digwyddiad cyfeiriannu yn Niwbwrch.

Hyd yn hyn, cynhaliwyd dau ddigwyddiad mawr yn Niwbwrch, y cyntaf ym 1995 a'r ail yn 2001. Roeddent yn ddigwyddiadau mawr (gan ddenu, yr amcangyfrifir, 5,000 o bobl), roedd un yn bencampwriaeth Prydain ac ystyriwyd yr ail yn bencampwriaeth Prydain gan mai dyma'r digwyddiad cyntaf i'w gynnal ar ôl diwedd clwy'r traed a'r genau, gan yr ataliwyd cynnal digwyddiadau cyfeiriannu yn ystod cyfnod y clwyf. Y cytundeb gwreiddiol oedd defnyddio Coedwig Niwbwrch ar gyfer digwyddiadau cenedlaethol yn unig a dim mwy nag un digwyddiad pob pum mlynedd.

Mae natur cyfeiriannu yn Eryri wedi newid, mae'n canolbwyntio mwy ar ddigwyddiadau lleol ac mae'r clwb am ddigwyddiadau llai o faint ar gyfer ei aelodau. Disgwylid na fydd mwy na rhwng 20 a 70 yn cymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiad. Y cynnig yw bod digwyddiad lleol llai o lawer o faint (dim mwy na rhwng 20 a 70 o bobl) a gynhelir bob blwyddyn, yn cymryd lle'r digwyddiad cenedlaethol.

Mae Ffederasiwn Cyfeiriannu Prydain wedi cynhyrchu llyfryn ar y cyd ag English Nature am gyfeiriannu a'r amgylchedd ac mae'n dangos ymrwymiad y gamp hon i gydweithio â'r holl asiantaethau cadwraeth.

Mae gan Glwb Cyfeiriannu Eryri swyddog datblygu, sy'n mynd o amgylch ysgolion lleol i hyrwyddo darllen mapiau / cyfeiriannu. Mae hi'n darparu cyfarwyddyd ar gyfeiriannu i ysgolion cynradd. Gallai'r cyfleuster hwn fod ar gael i Ysgol Niwbwrch.

Y drefn ar gyfer y digwyddiadau blaenorol oedd y byddai'r Comisiwn Coedwigaeth / Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn darparu map yn dangos ardaloedd lle roedd mannau cyfyngiad, fel arfer 'mannau dim mynediad'. Mannau sensitif i aflonyddwch fyddai'r rhain, e.e. pyllau, mannau cadw gwiwerod, mannau o ddiddordeb botanegol a fyddai'n debygol o gael eu difrodi gan gael eu sathru, a hefyd mannau y byddai'n beryglus i bobl fynd iddynt fel mannau lle gwneir gwaith medi gweithredol. Oherwydd bod natur y cyfyngiadau hyn yn newid o flwyddyn i flwyddyn, mae angen adolygu'r wybodaeth am gyfyngiadau bob blwyddyn.

Byddai'n rhaid cyfyngu cynnal unrhyw ddigwyddiad i'r cyfnod rhwng mis Medi a diwedd mis Chwefror sef yr adeg mwyaf derbyniol.

Clwb Cyfeiriannu Eryri i gysylltu â Martin Gould, Wil Sandison a byddan nhw'n darparu mapiau sy'n dangos yr ardaloedd cyfyngu i drefnyddion y clwb.

Cam Gweithredu: WS/MG

4. UNRHYW FUSNES ARALL

Mae Simon Hunt - BIO Fuel - yn trafod gyda 'Sylfaen', grŵp cymuned lleol, y posibilrwydd o gychwyn prosiect biomas yn Niwbwrch. Un o'r materion fydd ceisio defnyddio malurion ac efallai gwreiddiau a fydd yn deillio o ail-lunio'r goedwig. Rydym yn rhoi sylw i geisio eu gwneud yn fwy o gynllun gwresogi cymunedol ac yn obeithiol y bydd yn darparu ynni rhatach i aelodau'r gymuned sydd dan anfantais. Ar hyn o bryd, rydym ond yn y cyfnod cynnar ac rwyf wedi trefnu cyfarfod i'w gynnal wythnos nesaf pan fyddwn yn trafod yr holl agweddau a byddaf yn rhoi gwybodaeth i chi am sut aeth y cyfarfod.

Cam Gweithredu: SH

Neil Johnstone - DEUNYDD ARDDANGOS - fel y crybwyllwyd yn gynt, rydym yn cynnal yr arddangosfa yn y Sefydliad yma rhwng 10 o'r gloch y bore a 4 o'r gloch y prynhawn ar gymaint o ddyddiau'r wythnos ag y gallwn. Mae gennym rai bylchau o ran deunydd arddangos. Os oes gan unrhyw un ddeunydd y gallwn ei ddefnyddio i gau unrhyw rai o'r bylchau yn yr arddangosfa hon, cysylltwch ag Enid neu fi.

Cam Gweithredu: HOLL AELODAU'R PANEL

Gwyn Jones – DIOLCH – gofynnodd, ar ran holl aelodau'r panel, i estyn eu diolch i Mrs Gould am bobi cacenni a bisgedi ar gyfer y cyfarfod hwn.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – dydd Iau 27 Tachwedd 2003.**

Martin Gould
Rheolwr Ardal Lleol, Ynys Môn.